**Cyngor Partneriaeth Cymru**
**10:30 – 12:30, 12 Mehefin 2019**
**Ystafelloedd Cynhadledd C a D, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**
**Cofnodion y cyfarfod**

**<u>Mynychwyr</u>**

| | |
|---|---|
| **Gweinidogion Llywodraeth Cymru** | |
| Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol | Julie James AC |
| Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol | Hannah Blythyn AC |
| Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit | Jeremy Miles AC |
| **Awdurdodau lleol** | |
| Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd | Y Cynghorydd Debbie Wilcox |
| Llywydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | Y Cynghorydd Andrew Morgan |
| Arweinydd Cyngor Caerdydd | Y Cynghorydd Huw Thomas |
| Aelod Etholedig Cyngor Sir Gâr | Y Cynghorydd Mair Stephens |
| Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion | Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn |
| Arweinydd Dinas a Sir Cyngor Abertawe | Y Cynghorydd Robert Stewart |
| Aelod Etholedig Cyngor Sir Ynys Môn | Y Cynghorydd Ieuan Williams |
| Cynrychiolydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd | Mr Alun Michael |
| Cynrychiolydd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Byrddau Iechyd Lleol | Maria Battle |
| Cynrychiolydd Cyngor Cymuned | Y Cynghorydd Michael Cuddy |
| **Partneriaid Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus** | |
| Swyddfa Archwilio Cymru (Sylwedydd) | Tim Buckle |
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (Sylwedydd) | Anna Nicholl |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Chris Llewellyn,<br>Prif Weithredwr |
| TUC Cymru (Sylwedydd) | Martin Mansfield,<br>Ysgrifennydd Cyffredinol |
| Un Llais Cymru (Sylwedydd) | Lyn Cadwallader, Prif Weithredwr |
| **Swyddogion Llywodraeth Cymru** | |
| Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol | |
| Liz Lalley, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Trefniadau Pontio Ewropeaidd | |
| Paula James a Lisa Hughes – Ysgrifenyddiaeth | |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Cynrychiolydd Awdurdodau Tân ac Achub | Y Cynghorydd Tudor Davies |

| | |
|---|---|
| Cynrychiolydd yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol | Mr Owain Wyn |
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | Peter Davies |

**<u>Pwyntiau Gweithredu o'r cyfarfod hwn</u>**

**Cam gweithredu 1:** Ar gyfer Is-Grŵp - Papur ar Gyd-bwyllgorau Statudol yn erbyn modelau eraill. Llywodraeth Cymru.

**Cam gweithredu 2:** Comisiynwyr Heddlu a Throsedd i ystyried sesiwn ar gyfer Aelodau'r Cynulliad ar iaith dderbyniol ac annerbyniol yn gysylltiedig â Brexit. Alun Michael.

**Cam gweithredu 3**: Dylid ystyried llythyr ar y cyd gan LlC/CLlLC at Lywodraeth y DU ar ôl penodi'r Prif Weinidog newydd ynghylch Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant. Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol/CLlLC

### Croeso a chyflwyniadau

1. Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd, Julie James AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, trwy groesawu aelodau a diolch iddynt am fynychu.

2. Yn gyntaf, diolchodd y Cadeirydd i Derek Vaughan, ASE, am ei rôl fel Cadeirydd y Gweithgor Llywodraeth Leol, a ddaeth i ben ar 25 Mai. Nododd y Gweinidog y byddai'r gwaith yn cael ei barhau gydag Arweinydd CLlLC a chydweithwyr llywodraeth leol trwy is-grŵp newydd o'r Cyngor Partneriaeth hwn.

### Camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf, a diweddariadau

3. Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a nodwyd bod y camau gweithredu yn gyflawn.

### Eitem 1 – diweddariad am Brexit

4. Cyflwynodd y Cadeirydd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit.

5. Diolchodd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit i'r Gweinidog am y gwahoddiad i'r cyfarfod hwn ac aeth ymlaen i ddiolch i'r holl aelodau am y paratoadau roeddent wedi eu rhoi ar waith wrth ddisgwyl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd (UE) ar ddiwedd mis Mawrth, a diwedd mis Hydref erbyn hyn. Yn anffodus, roedd perygl Brexit 'heb gytundeb' bellach wedi cynyddu.

6. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cynnal adolygiadau archwilio ar y gwersi a ddysgwyd o'r paratoadau ym mis Mawrth.

7. Bu'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit yn trafod pwysigrwydd gwaith effeithiol ar gyfer argyfwng sifil posibl, ac mae'r anawsterau a achosir gan yr oedi o fis Mawrth bellach yn annog lefel ffocws i ddychwelyd at wneud paratoadau. Mae hyn yn destun pryder a risg, yn enwedig o ran y ffaith fod busnesau yng Nghymru mor barod ag yr oeddent ym mis Mawrth, ac mae Llywodraeth Cymru bellach yn canolbwyntio ar sut i barhau i ymgysylltu â nhw, yn enwedig â busnesau bach.

8. Dywedodd y Cynghorydd Rob Stewart (RS) ei fod yn ddiolchgar am gyfranogiad parhaus awdurdodau lleol yng ngrŵp cynllunio Brexit, ond roedd ganddo bryderon cynyddol hefyd am y costau cynyddol sy'n gysylltiedig â chyflenwadau bwyd, er enghraifft, ac effaith negyddol hyn ar ysgolion a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Bydd gohirio'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn sgil Brexit yn cael effaith sylfaenol ar hyn.

9. Ychwanegodd Alun Michael (AM) ei bryderon ei hun am effaith gohirio'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ar yr heddlu.

10. Ailadroddodd Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit y pryderon hyn a dywedodd y byddai angen cyllid gan Lywodraeth y DU os bydd Brexit 'heb gytundeb', ond nad oes sôn o'r cyllid hwn ar hyn o bryd.

11. Roedd aelodau'n cytuno bod rhywfaint o'r iaith a ddefnyddir ynghylch Brexit, yn enwedig iaith yn gysylltiedig â throsedd casineb ac mewn dadleuon am fewnfudo, yn annymunol iawn.

12. Gofynnodd y Cadeirydd i Alun Michael ystyried briffio Aelodau'r Cynulliad ar iaith dderbyniol, a chadarnhaodd y bydd yn siarad â chydweithwyr ynglŷn â hyn.

    - Gweithredu – Dylai Alun Michael siarad â chydweithwyr y Comisiynydd Heddlu a Throsedd am gyflwyno sesiwn i Aelodau'r Cynulliad ar iaith dderbyniol ac iaith annerbyniol sy'n gysylltiedig â Brexit.

13. Diolchodd Reg Kilpatrick (RK) i arweinwyr a swyddogion llywodraeth leol a CLlLC am ymgysylltu â'r fforymau a'r broses gwydnwch, gan nodi'r gwaith yr oedd angen ei wneud o hyd. Diolchodd RK i CLlLC hefyd am yr astudiaeth parodrwydd a gomisiynwyd gan Grant Thornton a fyddai'n llywio hyn.

14. Symudodd y Cadeirydd ymlaen i drafod y sefyllfa ynglŷn â'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ymhellach, a mynegodd y farn ei bod yn annhebygol y bydd adolygiad o wariant yn cael ei gwblhau gan fod llywodraeth newydd a Changhellor newydd. Os yw'r cynnig ar gyfer cyllideb sy'n cael ei chario ymlaen, yna rhaid cydnabod bod hyn yn debygol o fod yn gyllideb sylfaen yn unig, heb

unrhyw gyllid canlyniadol. Byddai hyn yn achosi problemau sylfaenol o amgylch meysydd fel ariannu pensiynau athrawon. Nododd y Cadeirydd ei bod yn bwysig sefyll gyda'n gilydd ac yn gadarn yn erbyn yr effaith ddinistriol y byddai hyn yn ei chael, a dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i godi'r pryderon hyn.

15. Dywedodd y Cynghorydd Debbie Wilcox (DW) y byddai'n hapus i gyflwyno llythyrau ar y cyd ar ran Llywodraeth Cymru a CLlLC gyda'i gilydd ynglŷn â'r mater hwn, a chroesawodd y Cadeirydd y cynnig hwnnw. Dywedodd y Cadeirydd y bydd hyn yn cael ei ystyried wedi i'r Prif Weinidog newydd gael ei ethol.

    - Gweithredu – dylid ystyried llythyr ar y cyd ar ran LlC/CLlLC at Lywodraeth y DU ar ôl penodi Prif Weinidog newydd ynglŷn â'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant. Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol/CLlLC

16. Wedyn, cafwyd trafodaeth am y gwaith gwydnwch y mae angen ei wneud yn ystod yr haf, a fyddai wedyn yn cael ei gyfleu ar ôl cytuno ar y mater.

Gadawodd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit y cyfarfod.

**Eitem 2 – Gweithgor Llywodraeth Leol – argymhellion a'r camau nesaf**

17. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad bras ar y canlyniadau o'r Gweithgor, a oedd wedi dod i ben ym mis Mai, a rhannodd y cylch gorchwyl drafft ar gyfer Is-grŵp newydd y Cyngor Partneriaeth, a oedd am barhau â'r gwaith ar nifer o'r argymhellion.

18. Diolchodd y Cadeirydd i'r holl gydweithwyr a fu'n gysylltiedig â'r Gweithgor a oedd, yn ei barn hi, wedi bod yn enghraifft gadarnhaol o gydweithio, a nododd yn benodol ei diolch i Derek Vaughan am ei fedr a'i ymroddiad yn cadeirio'r cyfarfodydd.

19. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y rhestr lawn o ddiweddariadau ac argymhellion, yn unol â'r manylion ym Mhapur 1, a gofynnodd i'r aelodau nodi'r Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer yr Is-grŵp newydd, sef canolbwyntio i ddechrau ar dri o'r argymhellion hynny, sef:

- Trefniadau rhanbarthol – datblygu manylion ar y cyd ynglŷn â sut bydd Cyd-bwyllgorau Statudol yn gweithredu yn ymarferol, a'r hyn y mae angen ei ystyried a'i gytuno.

- Uno gwirfoddol – i sicrhau bod dull cytûn y Gweithgor i ddarparu prosbectws ar gyfer uno gwirfoddol yn cael ei fabwysiadu a'i adolygu'n gyson. Bydd yr Is-grŵp yn goruchwylio datblygu proses fanylach os bydd dau awdurdod neu fwy yn mynegi diddordeb mewn uno.

- Gwella a chymorth – ystyried datblygu trefniadau gwella a chymorth newydd wedi'u harwain gan y sector.

20. Dywedodd y Cadeirydd wrth aelodau y bydd hi'n cadeirio'r Is-grŵp ac y bydd yn darparu adroddiadau i'r Cyngor Partneriaeth i lywio ystyriaethau'r Cyngor am y rhain, a materion cysylltiedig.

21. Rhoddodd y Cadeirydd fanylion am y graddfeydd amser yn gysylltiedig â'r gwaith hwn gan fod angen i'r amserlen ar gyfer Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a'r gofyniad ar gyfer deddfwriaeth gael eu rhoi ar waith yn barod ar gyfer yr etholiadau Llywodraeth Leol nesaf.

22. Disgrifiodd y Cadeirydd yn fras y dull ysgafnach o ran perfformiad a llywodraethu yn y Bil a'r bwriad i ddirymu mesur Llywodraeth Leol 2009.

23. Hefyd, disgrifiodd y Cadeirydd elfennau gweithio rhanbarthol a chydweithio o'r Bil nesaf, gan gynnwys galluogi Cyd-bwyllgorau Statudol. Bu trafodaeth ynglŷn â beth oedd y rhain, yn enwedig mewn perthynas ag arwyddocâd y gair 'statudol' yn y cyd-destun hwn. Esboniodd y Cadeirydd nad yw'r term yn awgrymu ei bod yn statudol cael Cyd-bwyllgor Statudol, ond os byddwch yn defnyddio'r strwythur hwnnw, yna mae'r cyd-bwyllgor ei hun yn statudol.

24. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod Cabinet Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gynigion y Cyd-bwyllgor Statudol ac y dylid defnyddio strwythurau Cyd-bwyllgor Statudol yn lle Cyd-bwyllgorau Cludiant. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn falch fod cytundeb ar draws Llywodraeth Cymru erbyn hyn i geisio symleiddio trwy ddefnyddio'r un mecanwaith yn unig, yn hytrach nag ychwanegu at haenau'r cymhlethdod presennol.

25. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn edrych ymlaen at drafodaethau ar sut i wneud y gorau o gyfleoedd cynllunio defnydd tir a datblygu economaidd i ddatblygu tai cymdeithasol ar y cyflymder a'r raddfa angenrheidiol. Cadarnhaodd y Cadeirydd mai pŵer nid dyletswydd yw hyn, a'i bod yn dymuno cydweithio â llywodraeth leol. Mae'n dymuno i Gyd-bwyllgorau Statudol fod yn gyfrwng defnyddiol, a reolir yn ddemocrataidd ar gyfer llywodraeth leol, tra'n bod yn agored ac eglur ar gyfer dinasyddion.

26. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai Is-grŵp y Cyngor Partneriaeth, a grëwyd yn ddiweddar, a grwpiau gorchwyl a gorffen cysylltiedig, yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn ystod yr haf. Croesawodd y Cadeirydd safbwyntiau ar y cylch gorchwyl drafft.

27. Cadarnhaodd y Cynghorydd Debbie Wilcox (DW) fod Arweinwyr ym Mwrdd Gweithredol CLlLC wedi cytuno ag argymhellion y Gweithgor, a chroesawodd yr Is-grŵp newydd. Roeddent hefyd wedi croesawu'r trefniadau cymorth arfaethedig dan arweiniad sector. Dywedodd DW ei bod wedi ysgrifennu ar wahân at y

Gweinidog am Gyd-bwyllgorau Statudol, gan fod y model wedi ennyn trafodaeth yn y Bwrdd, ac roedd y llythyr yn ceisio eglurder ar nifer o faterion.

28. Bu trafodaethau ynglŷn â ph’un a fyddai partneriaid gwasanaethau cyhoeddus ehangach, fel yr heddlu, WCVA, OVW a’r GIG yn gysylltiedig â gwaith yr Is-grŵp, ond o ganlyniad i’r graddfeydd amser tynn a osodwyd gan amserlen y Bil, a natur ffocysedig y materion sy’n destun trafod, roedd angen trafodaethau brys rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn ystod yr haf. Byddai partneriaid eraill yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yng nghyfarfod y Cyngor Partneriaeth ym mis Hydref, ac yn cymryd rhan yn ôl yr angen wrth i’r gwaith barhau.

29. Croesawodd y Cynghorydd Rob Stewart (RS) y pŵer cymhwysedd cyffredinol a’r dull ymdriniaeth ysgafn o ran perfformiad a llywodraethu yn y Bil drafft. Gofynnodd y Cynghorydd Stewart a’r Cynghorydd Peter Fox (PF) am ragor o wybodaeth am y gwahaniaeth rhwng Cyd-bwyllgorau Statudol a chyd-bwyllgorau, ac eglurder ar yr hyn y cynigir ei fod yn statudol neu’n orfodol. Cytunodd y Cadeirydd i’r manylion hyn fod ar gael ar gyfer cyfarfod cyntaf yr Is-grŵp.

- Cam gweithredu: Ar gyfer yr Is-grŵp - Papur ar Gyd-bwyllgorau Statudol yn erbyn modelau eraill. Llywodraeth Cymru

30. Cododd y Cynghorydd Ellen ApGwyn (EAG) y mater ynglŷn â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ond cadarnhaodd y Cadeirydd nad ydynt yn cael eu hystyried fel Cyd-bwyllgorau Statudol ar hyn o bryd, ond byddai’r Bil yn galluogi newidiadau o’r fath, os yw’n briodol yn y dyfodol.

31. Yn dilyn trafodaeth bellach am Gyd-bwyllgorau Statudol, eglurodd y Cadeirydd mai ei bwriad yw y bydd y Bil yn ffurfio Pwyllgorau Cludiant a Defnydd Tir, ac roedd yn gobeithio cynllunio a datblygu economaidd hefyd. Y cyswllt â’r gyfundrefn berfformio newydd oedd os yw awdurdod yn methu ar ôl mynd trwy’r gyfundrefn perfformio a llywodraethu gyfan, yna dyna’r unig ffordd y gallai Gweinidog ymyrryd. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn bwriadu trafod hyn ymhellach a datblygu’r manylion gyda’r Is-grŵp.

32. Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at y ffaith ei bod yn fanteisiol i Gyd-bwyllgorau Statudol allu cyflogi gweithlu medrus a fyddai’n cael ei rannu, yn hytrach nag unigolion yn cael eu denu o un awdurdod i weithio i awdurdod arall.

33. Croesawodd y Cynghorydd Andrew Morgan (AMo) sylwadau’r Cadeirydd a gofynnodd fod y gwaith yn ystod yr haf yn cynnwys ystyried goblygiadau strwythurau Cyd-bwyllgorau Statudol ar waith arall sydd eisoes ar y gweill fel y gellir newid strwythurau presennol, yn hytrach na bod angen eu hailddechrau.

34. Cytunodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig mai dyma sy’n digwydd. Dywedodd mai ei bwriad oedd i hyn fod yn gyfrwng llywodraeth leol i wneud yr hyn roeddent yn

ei ddymuno. Llywodraeth leol fyddai'n gwneud y penderfyniad i ddirprwyo swyddogaeth i'r cyfrwng. Awgrymodd y Cadeirydd y byddai set o ganllawiau a gweithdrefnau yn cael ei datblygu a'i chytuno gan yr Is-grŵp. Byddai'r broses yn eglur ar gyfer dinasyddion ledled Cymru.

35. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r Is-grŵp yn cael ei sefydlu ac y byddai grwpiau gorchwyl a gorffen o swyddogion yn gweithio ar yr agweddau technegol yn ystod yr haf. Roedd hi'n awyddus i gydweithio â llywodraeth leol ar fanylion hyn cyn gynted ag y bo modd.

36. Cododd EAG y mater yn ymwneud â chynllunio rhanbarthol, a dywedodd nad yw hyn yn cael ei wneud ar lefel awdurdod lleol, felly gofynnodd sut byddai'n cael ei ariannu. Ymatebodd y Cadeirydd trwy ddweud bod y Ddeddf Gynllunio eisoes yn rhoi'r grym i Weinidogion orfodi cynllunio rhanbarthol, ond nad oedd hi'n bwriadu gwneud hynny, ond byddai'n gweithio gydag awdurdodau ar y manylion ynglŷn â sut byddai hyn yn cael ei ariannu yn y dyfodol.

**Eitem 3 (Papur 2) – Adolygu Partneriaethau Strategol**

37. Cyflwynodd Daniel Hurford (DH) y papur hwn a'r cylch gorchwyl a oedd wedi cael ei ddatblygu yn dilyn trafodaethau rhwng Arweinwyr a'r Gweinidog. Roedd yn bwysig rheoli disgwyliadau gan fod yr amseroedd ar gyfer y darn penodol hwn o waith yn dynn iawn. Fodd bynnag, roedd llawer o waith eisoes yn cael ei wneud ar hyn, fel adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, sydd ar y gweill ar hyn o bryd, ac mae partneriaethau lleol a rhanbarthol wedi cynnal eu hadolygiadau eu hunain hefyd.

38. Rhoddodd DH wybod i aelodau y bydd llythyr yn cael ei anfon allan ar unwaith at bartneriaid gwasanaethau cyhoeddus yn gofyn iddynt gymryd rhan, ac am eu barn. Bydd yr adolygiad yn cael ei gwblhau erbyn yr Hydref, a diweddariad yn cael ei roi i'r Cyngor Partneriaeth ar 2 Hydref.

39. Gwahoddwyd sylwadau, a chododd DW bryderon ynglŷn â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a chydbwysedd rhwng partneriaid etholedig a phartneriaid anetholedig, gyda phartneriaid anetholedig yn dylanwadu'n ormodol ar ble caiff cyllid ei flaenoriaethu.

40. Gofynnodd AM am gynnwys yr heddlu gan eu bod yn hanfodol i drafodaethau ac yn gysylltiedig ag ystod eang o bartneriaethau.

41. Dywedodd Maria Battle (MB) fod yr adolygiad yn bwysig iawn, yn ei barn hi, a chynigiodd y dylai Cadeirydd GIG weithio ar yr adolygiad. Croesawyd hyn.

42. Croesawodd Anna Nicholl (AN) yr adolygiad a dywedodd ei bod yn gallu bod yn anodd iawn i'r trydydd sector ddeall a chefnogi'r partneriaethau niferus. Dywedodd y byddai WCVA yn croesawu'r cyfle i gymryd rhan.

43. Cyfeiriodd Martin Mansfield (MM) at baragraff 6 y cylch gorchwyl a soniodd am hyn mewn perthynas â'r adolygiad o bartneriaethau cymdeithasol a'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a oedd wedi'i gynnal, gan ofyn am nodi achosion o orgyffwrdd. Pwysleisiodd MM ei bod yn bwysig i undebau llafur fod yn bartner democrataidd ac amlygodd anawsterau ynglŷn ag undebau llafur yn ymgysylltu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaethau sgiliau.

44. Dywedodd Michael Cuddy (MC) ei bod yn bwysig cynnwys pobl leol wrth wneud penderfyniadau, ac ymgynghori â nhw ynglŷn â materion.

45. Croesawodd PF yr adolygiad, ac amlygodd nifer o feysydd lle roedd yn teimlo nad oedd trefniadau partneriaeth wedi cael eu cyflawni, ond bod hyn wedi defnyddio adnoddau ac ynni y gellid bod wedi eu canolbwyntio yn rhywle arall.

46. Cadarnhaodd y Cadeirydd mai'r bwriad yw ceisio creu strwythur sy'n ddemocrataidd, yn gynrychioliadol, yn eglur ac yn defnyddio amser yn dda. Cytunodd â MM fod rhaid cymryd gofal fel bod yr adolygiad hwn yn ymwybodol o rai eraill, a bod gorgyffwrdd yn cael ei osgoi.

47. Cytunwyd ar yr eitem.

**Eitem 4 – Diweddariad am yr Is-grŵp Cyllid**

48. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod llawer o'r wybodaeth o'r diweddariad hwn, yn enwedig o ran yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, eisoes wedi cael ei thrafod yn ystod eitem 1 a'r diweddariad gan y Cwnsler Cyffredinol.

49. Dywedodd y Cadeirydd, o ystyried pwys y materion a gwmpesir gan yr Is-grŵp Cyllid, cytunwyd cynyddu amlder cyfarfodydd, a bod cyfarfod ychwanegol wedi'i gynnal ym mis Mai, gyda'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Rebecca Evans AC, yn mynychu.

50. Ailadroddodd y Cadeirydd y pryderon a fynegwyd yn gynharach am yr oedi yng ngraddfeydd amser yr adolygiad cynhwysfawr o wariant a'r problemau a ragwelir pe bai Cymru yn derbyn cyllid treiglol yn unig o waelodlin Llywodraeth Cymru. Nid oedd yn hysbys p'un a fyddai hyn yn cynnwys y cyllid ychwanegol a drafodwyd ar gyfer 2019-20, fel cyflog athrawon a chyllid pensiynau.

51. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei bod wedi ysgrifennu eisoes at Lywodraeth y DU yn mynegi pryderon mawr am yr anawsterau i lywodraeth leol a gwasanaethau eraill os caiff yr adolygiad cynhwysfawr o wariant ei ohirio tan fis Rhagfyr.

52. Codwyd y posibilrwydd i anfon llythyr ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a CLlLC at Lywodraeth y DU eto, a chytunwyd i ystyried hyn ar ôl penodi'r Prif Weinidog newydd.

53. Bu'r Cadeirydd yn trafod tai cymdeithasol a'r angen i ystyried sut i wneud y defnydd gorau o'r hyn sydd gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru ar waith er mwyn gallu adeiladu tai cymdeithasol ar y cyflymdra a'r raddfa angenrheidiol.

54. Roedd y pwynt trafod olaf am yr eitem hon ynglŷn â threthiant lleol, credydau treth cynhwysol a'r newidiadau arfaethedig i drwyddedau teledu, a'r effaith ar y bobl dlotaf mewn cymdeithas. Bydd y Cadeirydd yn gweithio gyda DWP yng Nghymru ar ymgyrchoedd i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar gymorth, lle mae'n bodoli.

**Eitem 5 – Hanfodion Seiber a Mwy – papur i nodi**

55. Diolchodd Reg Kilpatrick (RK) i CLlLC am ymgymryd â'r caffael sy'n gysylltiedig â Hanfodion Seiber a Mwy, a diolchodd i'r holl awdurdodau am lofnodi'r cytundeb. Rhoddodd RK y wybodaeth ddiweddaraf fod 5 awdurdod bellach wedi'u hachredu, a bod 13 awdurdod arall yn gweithio tuag at y safon. Mae angen ymgysylltu â'r awdurdodau sy'n weddill.

56. Bu'r broses yn ddefnyddiol, ac mae hefyd wedi nodi rhai materion fel hen galedwedd a meddalwedd.

57. Mae Awdurdodau Tân ac Achub yn bwriadu ymuno erbyn hyn.

58. Y gobaith yw y bydd y broses Hanfodion Seiber a Mwy yn gyflawn erbyn diwedd y flwyddyn, ac mae angen ystyried y camau nesaf.

59. Cadarnhaodd y Cynghorydd Wilcox ei bod yn hapus i weld y cynnydd a wnaed gan awdurdodau ar hyn.

**Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol – Sylwadau Clo**

60. Nododd y Cadeirydd y byddai cyfarfod cyffredinol blynyddol CLlLC yr wythnos ganlynol yn cadarnhau aelodau Cyngor Partneriaeth awdurdodau lleol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Diolchodd y Gweinidog i'r holl arweinwyr awdurdodau lleol yn y cyfarfod am eu cyfraniadau i'r Cyngor yn ystod eu cyfnod fel aelodau.

61. Diolchodd y Cadeirydd i'r holl aelodau am eu cyfraniad heddiw, a daeth y cyfarfod i ben.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf 10.30 – 12.30, dydd Mercher, 2 Hydref yn Nhŷ Hywel.**